

# AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL

25 Gorffennaf 2019

Yn bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)  
Mr A Archer, Cynghorydd Mrs D Clements, Cynghorydd K Doolin, Dr M Havard, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

(Swyddfa'r APC, Parc Llanion, Doc Penfro: 10.00a.m. – 11.35a.m.)

## 1. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd P Baker, Cynghorydd M Evans, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd R Owens.

## 2. Datgan Buddiannau

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

## 3. Cofnodion

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2019 (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin) i'w cadarnhau a'u llofnodi.

Gan gyfeirio at Gofnod 7 y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol, dywedodd Dr M Havard mai teitl cywir y corff y cyfeirir ato yn y paragraff olaf cyn y penderfyniad yw "Pwyllgor Ymgynghorol Parth Cadwraeth Forol Skomer".

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2019 (Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a'r Cyfarfod Cyffredin), cyn belled ag y nodir y newid uchod.

## 4. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd/digwyddiadau ers cyfarfod diwethaf yr Awdurdod. Ymhlith y rhain oedd y canlynol:

- Agor Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth;
- Gwasanaeth Dinesig Maer Tyddewi;
- Croesawu'r llong fordeithio Nautica i Wdig;
- Agoriad swyddogol arddangosfa Cerrig ac Esgyrn yn Oriel y Parc;
- Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol Sgowtiaid Sir Benfro yn Sain Ffraid;
- Gwobrau Gwarchod y Parc yn San Steffan;
- Rhwydwaith cenedlaethol Aspire ar astudiaethau Cwnstabl yn y Tate;



- Gwobrau Busnes Sir Benfro;
- Agoriad y Serendome yn y Garreg Las - Bluestone;
- Nifer o ddigwyddiadau yn Sioe Frenhinol Cymru, gan gynnwys cinio'r Llywydd, brecinio gyda'r 160<sup>fed</sup> Brigâd y Troedfilwyr a Brenin Zululand, a chyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol.

## **NODWYD.**

### **5. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd adroddiadau cyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth.

#### **PENDERFYNWYD:**

- derbyn adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 01 Mai a 05 Mehefin 2019, y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2019, y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 04 a 05 Mehefin 2019 a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2019, a
- mabwysiadu adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 08 Mai 2019 a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2019.

### **6. Adroddiad ISA260 i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mr Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod. Dywedodd Mr Evans fod gwaith ei swyddfa ar archwilio bellach wedi'i gwblhau a bod yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn ganlyniad y gwaith hwnnw. Roedd yn dymuno codi un mater arwyddocaol, oedd yn effeithio ar bob awdurdod lleol, oedd wedi codi o ganlyniad i ddyfarniad Llys Apêl yn erbyn cynigion Llywodraeth y DU i newid cynlluniau pensiwn grŵp o swyddogion cyhoeddus o gyflog terfynol i gyflog cyfartalog yr yrfa. Gelwid y dyfarniad yn ddyfarniad McCloud ac roedd amcangyfrif o'r gost unioni i weithwyr yr effeithiwyd arnynt yn debygol o fod yn sylweddol. Gan fod y swm dan sylw yn uwch na throthwy perthnasedd yr Awdurdod ar gyfer y Datganiad Cyfrifon 2018/19, roedd yr Awdurdod wedi gwneud addasiad, y cyfeiriwyd ato yn Atodiad 3 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag ambell gamddatganiad a glustnodwyd yn ystod yr archwiliad. Ychwanegodd bod dogfen ganllaw hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad, oedd yn nodi goblygiadau camddatganiadau a'u heffaith ar waith archwilio, er gwybodaeth i'r Aelodau.

Ar wahân i'r mater hwn, dywedodd Mr Evans nad oedd ganddo unrhyw bryderon arwyddocaol eraill ac ychwanegodd mai bwriad yr Archwilydd Cyffredinol oedd cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod. Yn dilyn ymholiad gan Dr M Havard, roedd am



gadarnhau y dylai'r tabl a nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad ddarllen 'Arddangosyn 1' mewn gwirionedd ac nid 'Arddangosyn 2'. Yn olaf, dymunai ddiolch i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu cymorth i'w helpu ef a'i gydweithwyr i gyflawni'r gwaith erbyn y terfyn amser cyfyngedig a bennwyd y tro hwn.

Dywedodd y Rheolwr Cyllid bod y cydweithredu rhwng yr Awdurdod a Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n dda iawn. Dywedodd bod dyfarniad McCloud wedi profi'n eithaf anodd, ond roedd y swyddogion wedi llwyddo i oresgyn yr anawsterau.

Roedd yr Aelodau yn falch o dderbyn set arall o gyfrifon diamod ac yn dymuno cofnodi eu diolch i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled.

Gan na chodwyd unrhyw ymholiadau ar y Datganiad o Gyfrifon oedd hefyd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, **PENDERFYNWYD**:

- (a) derbyn yr Adroddiad ISA260 gan Swyddfa Archwilio Cymru a llofnodi Llythyr Cynrychiolaeth, a
- (b) chymeradwyo a llofnodi'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2018/19.

## **7. Adroddiad blynyddol ar gyflawni amcanion llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) 2018/19**

Dywedodd y Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn 31 Hydref bob blwyddyn. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant a dangos sut oedd yr amcanion hynny yn cyfrannu at saith Nod Llesiant Llywodraeth Cymru.

Roedd y ddogfen a gyflwynwyd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw yn diwallu gofynion y ddwy Ddeddf, ac yn dangos sut oedd yr Awdurdod wedi defnyddio'r pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys Pobl. Mae'n amlinellu'r camau ymlaen a gymerwyd yn erbyn y rhaglen waith fel y'i nodir yng Nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2018/19 oedd hefyd yn gweithredu fel adroddiad cydraddoldeb blynyddol yr Awdurdod.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y swyddogion hefyd wedi cwblhau pecyn cymorth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar hunan-fyfyrio "Cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant" ac wedi mynychu gweithdy i helpu cyrff cyhoeddus ddysgu gyda'i gilydd a gwerthuso ymatebion ei gilydd. Er mwyn cymryd hyn i ystyriaeth, roedd tabl gwirio taith wedi'i gynnwys o dan bob amcan er mwyn nodi cyfeiriad y ffordd tuag at gyflawni pob un.



Diolchodd yr Aelodau i'r Cydlynnydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth am adroddiad rhagorol oedd yn cynnwys llawer o wybodaeth ddiddorol a defnyddiol. Roeddent o'r farn bod y data meincnodi yn ddefnyddiol iawn gan fod y data yn rhoi sicrwydd i'r Aelodau bod yr Awdurdod naill ai'n mynd i'r cyfeiriad cywir neu'n arwain y ffordd mewn rhai materion. Fodd bynnag, roeddent o'r farn bod y swyddogion wedi bod yn ddiymhongar iawn wrth adrodd ar rai o'r llwyddiannau ac y dylid unioni hyn yn yr adroddiad nesaf.

Ymatebodd y swyddogion i nifer o ymholiadau gan Aelodau gan gynnwys rhai yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, rhywogaethau goresgynnol a phroffilio'r gweithlu. Yn dilyn pryderon a godwyd ynghylch cau toiledau cyhoeddus, dywedodd y Prif Weithredwr bod y pryderon hynny wedi'u codi gyda Chyngor Sir Penfro gan fod y cau yn effeithio nid yn unig ar brofiad yr ymwelydd ond ar y gymuned leol yn ogystal. Dywedodd bod rheoli'r fframwaith, a hyrwyddo'r Parc Cenedlaethol - a Sir Benfro gyfan - yn dibynnu ar strategaeth integredig oedd yn edrych ar y darlun ehangach. Roedd yn derbyn bod sefyllfa ariannol awdurdodau lleol wedi newid yn ddirfawr dros y blynyddoedd diwethaf, ond roedd angen cynnal trafodaethau er mwyn sicrhau dyfodol cynaliadwy i gymunedau lleol ac i ymwelwyr fel ei gilydd.

Gan droi at Gastell Caeriw, roedd y Cyngorydd M Williams yn dymuno diolch i'r swyddogion dan sylw am yr hyn oedd yn ei farn ef yn gynllun gwella rhagorol ar y safle ac am gyflawni prosiect o'r radd flaenaf.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Cynllun Gwella Rhan 2 a'r Adroddiad Blynyddol ar gyflawni Amcanion Llesiant 2018/19.

## **8. Penodi Swyddog Monitro**

Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi derbyn cyngor cyfreithiol, ers ysgrifennu'r adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, ar symud ymlaen i benodi Swyddog Monitro i'r Awdurdod. O ganlyniad, cynigiodd y dylai'r Awdurdod hysbysebu'r swydd, gan nodi y croesewir ceisiadau gan unigolion, partneriaid sydd â diddordeb mewn cynnig cyfleoedd gweithio ar y cyd neu secondiadau a/neu gwmnïau cyfreithiol. Pwysleisiodd fodd bynnag y byddai'r Awdurdod yn chwilio am unigolyn a enwir pe bai partner neu gwmni cyfreithiol yn mynegi diddordeb. Yna nododd yr amserlen a gynigiwyd ar gyfer y broses hysbysebu a recriwtio.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r broses recriwtio a amlinellwyd gan y Prif Weithredwr yn y cyfarfod.



## 9. **Aelodaeth Pwyllgorau a chyrrff allanol**

Atgoffwyd yr Aelodau y dywedwyd yn y Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a gynhaliwyd ar 05 Mehefin 2019 y byddai aelodaeth y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau yn cael eu cadarnhau unwaith y byddai Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion yr Awdurdod a'r Pwyllgorau perthnasol eraill wedi'u penodi. Roedd y penodiadau angenrheidiol bellach wedi'u gwneud a chynigiwyd bod cyfansoddiad y Pwyllgorau hyn fel a ganlyn:

### Y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu

Cynghorydd P Harries, Cadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

Cynghorydd R Owens, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu

Dr M Havard

Dr R Heath-Davies

Cynghorydd A Wilcox

### Y Pwyllgor Cwynion

Cynghorydd Mrs D Clements, Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol

Cynghorydd K Doolin, Cadeirydd y Pwyllgor Adolygu Gweithredol

Mr GA Jones

Cynghorydd P Kidney

Dr RM Plummer

### Y Pwyllgor Apeliadau

Cynghorydd M Williams, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu

Cynghorydd S Yelland, Dirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Adolygu

Gweithredol

Mr A Archer

Mrs J James

Cynghorydd M James

Dyweddodd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd hefyd bod cynrychiolaeth yr Awdurdod ar yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol ac ar Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro wedi ei ohirio yn yr un cyfarfod. Ers ysgrifennu'r adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw, cafwyd cadarnhad y byddai Mr Owain Wyn, Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru ar yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol. Fodd bynnag, awgrymodd y Prif Weithredwr y byddai'n ddefnyddiol i Dr M Havard hefyd dderbyn y papurau ar gyfer cyfarfodydd yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, gan ei bod yn cynrychioli'r Awdurdod ar Gynghrair Parciau Cenedlaethol Cymru.

## **PENDERFYNWYD**



- (a) cadarnhau cyfansoddiad y Pwyllgor Ymchwilio a Disgyblu, y Pwyllgor Cwynion a'r Pwyllgor Apeliadau, fel y'i nodwyd yn yr adroddiad oedd gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw;
- (b) gan fod Mr Owain Wyn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ar hyn o bryd yn cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru ar yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol, y dylid gofyn i'r Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol gynnwys Dr M Havard fel Aelod cyswllt yn unig, a
- (c) phenodi Dr M Havard i gynrychioli'r Awdurdod ar Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro.

## **10. Siarter Cymru ar gyfer cefnogi a datblygu Aelodau**

Atgoffwyd yr Aelodau eu bod, yn eu cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Medi 2018, wedi ail-gadarnhau eu hymrwymiad i gefnogi a datblygu Aelodau ac i gyrraedd Siarter Uwch Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau. O ganlyniad, roedd y Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd, gyda chymorth Mrs J James, wedi adolygu meini prawf y Siarter Uwch ac wedi dod i'r casgliad, er bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r hyn sy'n ofynnol, bod angen adolygu rhai meini prawf penodol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben.

Ynghlwm wrth yr adroddiad gerbron yr Aelodau y diwrnod hwnnw roedd dwy ddogfen:

- (i) Disgrifiad swydd a manyleb person yr Aelodau, a
- (ii) Strategaeth datblygu Aelodau.

Roedd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 08 Mai 2019, wedi ystyried y ddwy ddogfen yn fanwl ac wedi eu mabwysiadu.

Dywedodd Mrs J James dod y disgrifiadau swydd a'r manylebau person yn eithaf helaeth o ran rôl a'r cylch gwaith ac yn amlygu'r safon uchel yr oedd yr Aelodau yn cyflawni eu dyletswyddau.

Diolchodd Dr M Havard i'r Rheolwr Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Democrataidd ac i Mrs J James am eu gwaith caled yn cynhyrchu dogfennau o safon uchel. Fodd bynnag, roedd hi o'r farn y dylid cryfhau'r cyfeiriad at Aelodau yn adrodd yn ôl pan oeddent wedi mynychu corff allanol ar ran yr Awdurdod gyda gofyniad eu bod yn bwydo unrhyw wybodaeth yn ôl i'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac nid dim ond i'r swyddogion. Hefyd awgrymodd eiriad arall i'r cyflwyniad i'r protocol ar gyfer Aelodau a benodwyd i gynrychioli'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyrff allanol.



Ychwanegodd Dr R Plummer y dylid cyfeirio hefyd yn adran 5 o'r un protocol at ofynion y Comisiwn Elusennau.

Pwysleisiodd y Cynghorydd Mrs D Clements bod llawer o waith wedi'i wneud i sicrhau bod y fframwaith ar gyfer cefnogi Aelodau yn ei le, felly dylai'r Aelodau sicrhau eu bod yn chwarae eu rhan yn cefnogi proses y Siarter.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r dogfennau a nodir isod, yn amodol ar y newidiadau a awgrymwyd yn y cyfarfod:

- (a) Disgrifiadau swydd a manylebau person yr Aelodau, a'r
- (b) Strategaeth datblygu Aelodau.

